 Penrhys Colleget Institute and Community Society – Mountain Ash
 Penrhys Partnership – Rhondda
 Penygraig Community Project
 Penylan House Jewish Retirement and Nursing Home – Cardiff
 People in Partnership – Rhondda
 Person to Person Citizen Advocacy – Pontypridd
 Point of Ayr Colliery Band, Wrexham
 Pontypool MIND
 Pontypridd and District Housing Association
 Pontypridd Citizens Advice Bureau
 Powys Arms Line Services
 Powys Children and Families Forum
 Powys Dance
 Prince's Trust – Bro – Mold
 Prince's Trust – Bro – Newtown
 Prince's Youth Business Trust – Cardiff
 Prism – The Mid and West Wales Alcohol and Drug Advisory Service – Carmarthen
 Prospects – Aberystwyth
 Radnor Support Project
 Ramblers' Association – Wrexham
 Rape and Sexual Abuse Line South Wales Ltd
 Raven House Trust – Newport
 Relate Dyfed
 Relate North Wales
 Rhayader and District Community Support
 Rhondda Cynon Taff Community Arts
 Rhyl and District Benefit Advice Shop
 Rhymney Valley Care and Repair
 Rhymney Valley Homestart
 Royal National Institute for the Blind – Cardiff
 Royal Society for the Protection of Birds – Bangor
 Royal Society for the Protection of Birds – Sandy
 Rural Community Health and Social Care Programme – Wrexham
 Safai Methyr Tydfil
 Save the Children Fund – Mountain Ash
 Scope – Cardiff
 Scope – Cilwenni Bay
 Shell Better Britain Campaign – Birmingham
 Shortlife Housing (Cymru) – Cardiff
 Sir Gar Carmarthenshire Federation of Women's Institutes
 Snowdonia Woodland Trust
 Society of Voluntary Associates (SOVA) – Wrexham
 Somal Advice and Information Office – Cardiff
 South Glamorgan Council on Alcohol
 South Glamorgan Playbus Association
 South Glamorgan Women's Workshop
 South Pembrokeshire Action with Rural Communities
 South Riverside Community Development Centre
 South Wales Co-operative Development Association – Cardiff
 South Wales Convalescent and Rest Home
 South Wales Miners' Library
 Springboard Youth Information Shop – Llanelli
 St Brineili Centre Child Development – Mymwrch
 St David's Foundation – Newport
 Stepping Stones – Wrexham
 Stroke Association – Mid Wales Information Centre
 Swansea Citizens Advice Bureau
 Swansea Drugs Project (SAND)
 Swansea MIND
 Swansea Student Community Action
 Swansea Women's Resource and Training Centre
 Swansea Young Single Homeless Project
 SWISH (Body Positive) Ltd – Swansea
 Switch Active Help Project – Bridgend
 Sylfaen – Cymdeithas y Plant – Caerfarnion
 Taff By Drug Support Group
 Teen Challenge Gwent
 Tenant Participation Advisory Service (Wales) – Bangor
 Tenovus Cancer Information Centre
 Teulu'r Trws – Amroth
 Tiron Trust Ltd – St Asaph
 Tools for Self Reliance Cymru – Crickhowell
 Torfaen Citizen Advocacy
 Torfaen Community Transport
 Torfaen Women's Aid
 Track 2000 – Cardiff
 Tredegar Development Trust
 Triganiors – Caerfarnion
 Trustees of Rossett Church Hall – Wrexham
 United Welsh Housing Association
 Uniflas
 Usk House Day Hospice
 Vale of Clwyd MIND
 Vale of Clwyd MND
 Vale of Glamorgan Women's Aid
 Vale Volunteer Bureau
 Valleys Furniture Recycling – Pontypridd
 Valleys Race Equality Council – Pontypridd
 View / Dove Workshop – Neath
 Vision Foundation – Ebbw Vale
 Viva! Project – Treorchy
 Voluntary Action Centre Merthyr Tydfil
 Voluntary Community Services – Cardiff
 Welsh Initiative for Supported Employment
 Welsh School of Excellence for Conductive Education – Cardiff
 Welsh Women's Aid – Aberystwyth
 Wildlife Trust (West Wales)
 Woodland Trust – Llanbydder
 Workers Educational Association – Cardiff
 Wrexham Advocacy Partnership
 Wrexham Citizens Advice Bureau
 Wrexham County Crossroads
 Wrexham Homework Club
 Wrexham Hospice and Cancer Support Centre Foundation
 Wrexham Play Association
 Young Families Scheme – NCH Action for Children
 Young People's Project
 Ystafellais Development Trust
 Ystradgyniadys Volunteer Centre

Individual associate members

Aelodau cysylltio unigol

Diane Allen
Brian Bond
Mr T Bronic-Jones
Phil Cope
The Hon I Davies JP
Peter Davies
Mrs Marjorie Dykins OBE
Hywel V Evans
Mrs P Ann Evans
Ms S M Evans
Emma Gellot
Hywel Griffiths
Mrs Eunwen Holland Edwards
Nerys Hughes
Jane Hutt
Jane Lewis
Ms E L Nickson
Roy Allan Norris
Steve Sloan
Jill Taylor
Alain Thomas
Mrs Margaret Thorne OBE DL
Pam Turner
Sir Donald Walters
Mr Alastair Wood MBE MA

Private associate members

Aelodau cysylltio preifat

Business Trac
HTV Cymru/Wales
Martin Price Associates

Statutory associate members

Aelodau cysylltio statudol

Aman Gwenedraeth Partnership
Association of Welsh Community Health
Councils
Brecon Beacons National Park
Bridgend College Library
Bridgend County Borough Community
Health Council
Cardiff Bay Development Corporation
Cardiff County Libraries
Central Council for Education and Training
in Social Work - CCETSW Cymru
Ceredigion County Council - Social Services
Department
Charity Commission
Coleg Harlech
Community Support Services (Learning
Disabilities)
Conwy County Borough Council
Department of Social Policy and Applied
Social Studies
Equal Opportunities Commission
Flintshire Community Agency
Glan Hafren NHS Trust
Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol
Gwasanaeth Uylgrifol
Health Promotion Wales
Housing for Wales
'Kinser' Taff Valley Resource Group
National Lottery Charities Board
National Museum of Wales
Newport County Borough Council
North Wales Health Authority
Offa Community Council
Office for Research and Development for
Health and Social Care
Open University Business School
Powys County Council - Chief Executive's
Department
Powys County Council - Youth &
Community Centre, Llanfyllin
Rhondda Cynon Taff County Borough
Council - Leisure Services Department
South Rhymney Valley Community Mental
Health Team
Thomas Parry Library Aberystwyth
University of Wales Lampeter
Yole of Glamorgan County Council - Barry
Community Enterprise Centre
Valleys Arts Marketing
Wales Association of Community and Town
Councils
Wales Youth Agency
Welsh Consumer Council
Welsh Office Library
Wherham County Borough Council

The Last word

*"Our £20 membership fee was certainly money well spent.
During the year we've had in-house training for our
trustees, some comprehensive and well-researched
publications - and we've been able to access European
money thanks to some
excellent help from WCVA's
wonderful European
funding advisers. All in all
the return on that small
initial investment has been
marvellous."*

Ian Hill-Tout, Chair, Gabalfa
Community Workshop/Vision
21 Cyfle Cymru.

Y gair olaf

*"Dyma'r £20 gorau rydym
wedi ei gwario. Yn ystod y
flwyddyn rydym wedi
derbyn hyfforddiant i'n
hymddiriedolwyr,
cyhoeddiau cynhwysfawr
wedi'u hymchwilio'n
drywyr - ac rydym wedi derbyn arian o Ewrop, diolch i
ynglynghorwyr cyllid Ewropeaidd ardderchog CGGC. Ar y
cyfan, mae'r ffi ymaelodi isel wedi dod a manteision tu
hwnt i'r disgwyd."*

Ian Hill-Tout, Cadeirydd, Gweithdy Cymunedol Gabalfa/Vision 21
Cyfle Cymru.





**Wales Council for
Voluntary Action**


Supporting charities, volunteers and communities

**Cyngor Gweithredu
Gwirfoddol Cymru**

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Adroddiad blynnyddol

1997 • 1998





Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw llais y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau yng Nghymru ac yn ymgynrhoi ar eu rhan.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnig amrediad o wasanaethau i'n 600 haelodau gyda'r bwriad o roi'r newyddion diweddaraf i chi am unrhyw ddatblygiadau a digwyddiadau newydd, gan sicrhau bod gennych chi'r cyngor a'r cyfarwyddyd gorau sydd ar gael. Hefyd, fel sefydliad ag iddo aelodau, gall CGGC drafod gyda chyflenwyr gwasanaethau allanol i sicrhau bargeinion arbennig a gwyddwn y bydd ein haelodau yn gwerthfawrogi hyn. Mae'r pamffled a baratowid gennym CGGC - yn gweithio drosoch chi, yn cynnwys manylion o'r wahanol categoriau aelodaeth, ac hefyd gwasanaethau aelodau.

CGGC

Llys Ifor, Heol Crescent

Caerffili CF83 1XL

ffôn 01222 855100 ffacs 01222 855101

ebost wcva@mcr1.poptel.org.uk

Swyddfa Gogledd Cymru

Tŷ Tyldesley, Heol Clarence

Llandudno LL30 1DT

ffôn 01492 862100 ffacs 01492 862101

ebost llandudno@mcr1.poptel.org.uk

Swyddfa Canolbarth Cymru

Tŷ Park Lane, 7 Stryd Fawr

Y Trallwng

Powys SY21 7JP

ffôn 01938 552379 ffacs 01938 552092

ebost trallwng@mcr1.poptel.org.uk

Blif eisiau gofrestedig 218093. Hydref 1998.

Dyluniwyd gan The Design Studio, Bae Caerdydd.

Swyddfa Jigo

1 Rhodfa'r Gogledd

Aberystwyth

Ceredigion SY23 2JH

ffôn 01970 623255 ffacs 01970 610015

ebost jigso@pop3.poptel.org.uk

Adroddiad y Cadeirydd

Newydd fyddai un gair i ddisgrifio'r

flwyddyn ddiwethaf i Gyngor Gweithredu

Gwirfoddol Cymru. Cawsom ein dal yng
nghanol llond gwlad o gynlluniau a

mentrau newydd; fforwm y sector

gwirfoddol a'r Cyfamod, y Gronfa

Cyfleoedd Newydd, gwirfoddolwyr y

Mileniw, cynigion ynghylch iechyd

cenedlaethol a chymunedol, alltudiaeth

gymdeithasol, gweithgareddau gwledig, newidiadau addysgol ac yn

y blaen...



Mae hyn oll wedi golygu cryn dipyn o ymdrech ar ran holl bwyllgorau, aelodau a staff Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Bu'n rhaid i ni fod yn wyliadwrus ac yn bendant na fyddai'r sector gwirfoddol yn cael ei hel o'r neilltu a bod y potensial i ni chwarae rhan weithgar, egnol yn nyfodol Cymru yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi a'n bod yn cael yr adnoddau priodol i wneud hynny.

Ac fel yr amlýga'r adroddiad hwn, rydym wedi dangos yr ewyllys i chwarae rhan gyflawn. Ni fuom yn dawel, nac yn ddi-serch; yn ymwrthiol nac yn afresymol, ond yn aeddfed a gwybodus braidd yn ein hymrwymiad cadarn i fodloni anghenion y sector gwirfoddol cyfan.

Felly, dyna grynodeb o'r flwyddyn - blwyddyn pryd y bu i ni weithredu mewn ffyrdd newydd, gydag ymdrech ac ewyllys ac, yn sgil hyn oll, rydym ni bellach yn bobl newydd i Gymru, yn barod i wynebu'r sialfensiâu newydd a ddaw. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Rhagarweiniad y Cyfarwyddwr



Roedd y flwyddyn yr ymdrinnir â hi yn yr adroddiad hwn yn flwyddyn gyntaf llywodraeth newydd a oedd "yn benderfynol o lunio'r cysylltiadau cryfaf posibl gyda'r sector gwirfoddol".

Adlewyrchwyd yr awydd hwnnw trwy ddrafio cyfamod, neu gytundeb, a fydd yn llywio'r berthynas rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol - mae'r cyfamod i'w lansio yng nghynhadledd flynyddol CGGC fis Tachwedd, a thrwy sefydlu Florwm i'r Swyddfa Gymreig/y Sector Gwirfoddol lle trafodir materion o ddiddordeb a phryder i'r naill du a'r llall.

Fel i hadlewyrchir hefyd yng Nghymal 114 Deddf Llywodraeth Cymru sy'n rhwymor Cynulliad i hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol ac mewn llu o ddogfennau ymgynghorol a pholisi o du'r llywodraeth sydd wedi cynnwys dymuniad i weithio gyda mudiadau gwirfoddol a chymunedau.

Y datblygiadau hyn fu congifaen gwaith CGGC yn ystod y flwyddyn hon, gan bennu'r fframwaith y bydd y sector gwirfoddol yn gweithio oddi mewn iddo yn y dyfodol.

Mae'r fframwaith hwn hefyd yn rhoi swyddogaethau newydd i awdurdodau lleol ac awdurdodau ieichyd i lunio cynlluniau gwella cymunedau ac ieichyd ac i gyflwyno gwasanaethau mewn partneriaeth a'r sector gwirfoddol.

Bydd newidiadau o'r fath yn creu cyfleoedd newydd i fudiadau gwirfoddol a gallent fygwth rhai trefniadau sy'n bodoli'n barod.

Bydd CGGC yn parhau i "warchod" buddiannau mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr, gan siarad ar goedol, lle bo angen, a chynnig syniadau ac awgrymiadau sy'n cyfuno annibyniaeth a phartneriaeth.

Bydd yn parhau â'r gwaith a'r cynlluniau a nodir yn yr adroddiad hwn er mwyn darparu'r arfau hanfodol sy'n sylfaen i gyfranogiad dinasyddion a gweithredu cymunedol ledled Cymru. Cyfranogi a gweithredu o'r fath, gyda hyfforddiant, gwybodaeth, ymchwil, cefnogaeth ac adnoddau uniongyrchol yn gefn iddynt, sydd wedi darparu'r arloesedd a'r ysbyrdolaeth yr adeiladwyd llawer o wasanaethau amnyt, ac fe'u derbynir bellach fel elfen hollbwysig mewn gwaith i adlywio cymunedau a chynnal cymunedau iach.

Yr her dros y flwyddyn nesaf fydd gallu troi'r polisiau a'r bwriadau newydd yn realiti ac adelladu partneriaeth gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn meithrin a hybu mudiadau gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â gwirfoddoli, ym mhob rhan o Gymru.

Graham Benfield

Llais y sector gwirfoddol

Eleni, mae'r sector wedi wynebu sawl her a chyfleoedd ynghanol naws sefydliadol a gwleidyddol newydd. Yn syth ar ôl eu hethol ym mis Mai 1997, trodd y Llywodraeth Lafur at y sector gwirfoddol gan ofyn iddo ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau newydd i'w helpu i gyflwyno ei pholisiau. Hefyd, rhoddodd bwyslais ar feithrin ac atgyfnerthu perthynas rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol.

Y Cyfamod

Yn ein cynhadledd flynyddol, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ron Davies "Gadewch i mi bwysleisio bod y llywodraeth hon yn benderfynol o greu'r cysylltiadau cryfaf posib gyda'r sector gwirfoddol a'i gefnogi ym mhob ffordd bosib."

Un ffordd ymarferol o ddangos hyn oedd creu Cyfamod, rhywbeth y mae'r ddau barti yn ei ystyried yn gam mawr ymlaen. Yng Nghymru, gweithiodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn agos gyda'r Swyddfa Gymreig i ffurfio Cyd-florwrn ac ynddo gynrychiolwyr ar draws y sector ac uwch-weision sifil o'r Swyddfa Gymreig. Bu iddynt dreulio cryn dipyn o amser a defnyddio llawer o egni yn trin a thrafod yr holl ganllawiau manwl, pwysig a fydd yn sylfaen i'r Cyfamod.

Mae'r Cyfamod yn seiliedig ar egwyddorion allweddol - gwerthoedd cyfrannol y mae'r ddwy ochr yn cytuno amnyt, ac sy'n rheoli'r berthynas rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Addawodd yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd "yn cael ei adeiladu ar onestrwydd, ymddiriedaeth a pharch cyd-rwng y naill a'r llall". Bydd yn ymrwymo'r Swyddfa Gymreig i:

- lunio polisiau clir ynghylch gwirfoddoli, datblygu cymunedau a mudiadau gwirfoddol, a mesurau i'w cefnogi;
- ymgynghori gyda'r sector ynghylch newidiadau mewn polisiau;
- amrywiaeth o fesurau i wella'r peirianwaith cylliad.

Bydd hefyd yn mynnu rhai pethau penodol gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol, yn eu plith, lefel uchel a tebolrwydd - yn ariannol ac o safbwyt ein haelodau. Bydd y Cyfamod yn cael ei lansio yn ystod hydref 1998.

"Nid drwy'r blychau pleidleisiau yn unig y mae sicrhau democraeth i mi, mae'n ymddangos y gellir ystyried mudiadau gwirfoddol yn gyrrf gwirioneddol democraidd"

- Yr Ysgrifennydd Gwladol, Ron Davies yng nghynhadledd flynyddol CGGC, 1997.



"gweledigaeth y sector gwirfoddol" Y Cynulliad

Yn ystod y llyweddyn, drwy seminarau a phapurau brifio, tynnodd CGGC sylw'r sector at y cyfleoedd a'r anawsterau posibl o weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynodd CGGC safbwyt y sector gwirfoddol yngylch strwythur a threftadaeth y Cynulliad gerbron y Grŵp Ymgynghori Cenedlaethol, gan bennu cynlluniau radical ar gyfer:

- Delio â pholisiau drwy raglen strategol;
- cynigion i flurfio partneriaethau gydag asiantaethau allanol a chymunedau lleol;
- perianwaith cryf i weithio gyda'r sector gwirfoddol.


Wrth i'r cynlluniau ar gyfer y Cynulliad ddatblygu, sicrhaoedd CGGC gymal cwbl arloesol yn Nedd y Llywodraeth. Cymru yn mynnu bod y corff etholedig newydd yn flurfio cynllun i hyrwyddo buddiannau'r mudiadau gwirfoddol perthnasol, a phennu sut y bydd yn cynorthwyo ac yn ymgynghori â'r sector. Rhagdybir y bydd y Cynulliad yn adeiladu ar y Cyfarfod i ddatblygu cynllun y sector gwirfoddol.

"rôl amlwg"

Y Fargen Newydd

Mae CGGC wedi chwarae rôl amlwg i hyrwyddo buddiannau'r sector gwirfoddol yn un o bolisiau allweddol eraill y llywodraeth sef, y Fargen Newydd. Mae CGGC wedi:

- Cynrychioli buddiannau'r sector ar y tasglu ymgynghorol yng Nghymru;
- sicrhau rheolaeth, dros safbwyt y sector gwirfoddol, gan y sector ei hun mewn sawl rhan o Gymru;
- rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol i fudiadau gwirfoddol a oedd yn ystyried a ddylent gyfranogi ac, os felly, sut y dylent wneud hynny;
- sefydlu consortiwm sector gwirfoddol yng Ngogledd Cymru i wneud bid am opsiwn y sector gwirfoddol ac i gyflwyno'r opsiwn hwnnw.

A black and white photograph of three young men outdoors. They are leaning against a rough, textured wall, possibly made of concrete or stone. The man on the left is wearing a light-colored baseball cap and a light-colored zip-up jacket over a dark turtleneck. The man in the center is wearing a dark, patterned long-sleeved shirt. The man on the right is wearing a light-colored zip-up jacket. All three are smiling at the camera.

Dod â'r cig moch a'r ystlumod adref - mae tri bachgen ifanc yn camu o'r ciw dŵl tuag at waith, drwy gyfrwng hen dwlc mochyn a'r Fargen Newydd. Fe'u lleolwyd, gan CGGC, ar un o gynlluniau gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Twysog yn Antur Waunfawr, ac maent yn dysgu sgliliau newydd drwy addasu twlc mochyn yn lloches i ystlumod. Mae

CGGC yn gobeithio sicrhau o leiaf 340 o leoliadau ledled Gogledd Cymru.

Paratowyd ymatebion,
briffau a chyfraniadau
eraill ar/ar gyfer:

Siarter y Dinesydd

Elusennau a Threthi

Yr Economi Cymdeithasol

Papur Gwyn y GIG

All-Iunio Ymddiriedolaethau'r GIG

Datblygu Polisi Trafniadaeth Integredig

Loteri'r Bobl

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Tasglu O Fudd-dâl i Waith

Mesur Llywodraeth Cymru

Y Grŵp Ymgynghori Cenedlaethol

Papur Gwydd Addysg i bawb

Iechyd Gwell, Cymru Gwell

Arolygiad y Gofrestr y Comisiwn Elusennau

Yr agenda polisi ehangach

Gan mai nhw yw llais y sector gwirfoddol yng Nghymru, mae CGGC yn lobio'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, yn cynnal ymgrychoedd penodol ac yn dylanwadu ar unrhyw bolisiau a ddatblygir, gan gyflwyno achos y sector mewn modd clir a chydlynol. Yn bennaf oll, mae CGGC yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol, yn ymgynghori â'n haelodau a chyda rhwydweithiau eraill yn rheolaidd.

Yn ychwanegol at waith y Cyfamod a'r Cynulliad, mae CGGC wedi ymateb i brif elfennau polisiau'r llywodraeth newydd, o Gwirfoddolwyr y Mileniwm i O Fudd-dâl i Waith. Ym mhob achos, mae CGGC wedi dadlau dros:

- Cydnabod y cyfraniad y gall y sector gwirfoddol ei wneud;
- cyfranogi yng nghamau cynnar y gwaith o ddatblygu polisiau;
- cyfleoedd i greu partneriaethau i gyflwyno polisiau.


Cyflawni amcanion cyffredin

Mae'r Cyfamod yn ymwnaed â'r berthynas rhwng llywodraeth ganol a'r sector gwirfoddol. Ond mae'r berthynas rhwng y sector a llywodraeth leol yr un mor bwysig, gan fod y mwyafriol helaeth o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru yn gweithredu ar lefel leol ac, yn aml, ar lefel y gymdogaeth.

Ddechrau 1998, bu i CGGC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) lansiо Cyflawni amcanion cyffredin: gweithio i agenda gyffredin, sy'n dynodi gweledigaeth gyfrannol y bartneriaeth rhwng y ddau sector, ynghyd â ffydd ymarferol o fwrs'r weledigaeth honno ymlaen. Mae'r rhain yn cyrraedd:

- ffurfio grŵp cyswilt y'r sector gwirfoddol yn holl ardaloedd yr awdurdodau lleol, cytuno ar ddatganiad strategol, sylfaen wybodaeth gyfrannol, a framwaith gefnogt;
- mabwysiadu rhaglen neu ddull gweithredu drwy bartneriaid cymdeithasol, lle bydd y gwahanol sectorau yn eistedd fel partneriaid cyfartal, er mwyn cynhyrchu dull gweithredu ar y cyd, gan ddyrramu adnoddau ar sail 'pwysy'n gwneud beth' go iawn;
- cydnabod bod arweinyddiaeth yn dibynnu ar bartneriaeth effeithiol, nid partneriaeth mewn enw, a fydd yn golygu y bydd pob aelod yn gallu cychu at yr adnoddau, y syliau a'r arbenigedd.

Mae Cyflawni amcanion cyffredin eisoes wedi taro deuddeg gyda nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd yn mabwysiadu strwythur cyswilt ffurfio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn eu hardal.



Creu cymunedau

Mae mwyafrif helaeth y 23,000 grŵp gwirfoddol yng Nghymru, mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn grwpiau bychain, lleol a drefnir yn gyfan gwbl drwy ymdrechion gwirfoddol ac sydd â'u gweiddiau'n gadarn yn eu cymunedau. Mae CGGC yn dal yn ymrwymedig i sicrhau cynrychiolaeth a chefnogaeth i fentrau cymunedol...

Cefnogi gwaith gwirfoddol

Mae gwaith gwirfoddol yn dal i ffynnu yng Nghymru. Dengys yr arolwg diweddaraf yn ymddygiad o 2011 yng Nghymru ymae'r gwaith gwirfoddol, bod bron hanner y boblogaeth o oedolion wedi gwirfoddoli yn ystod y llynedd - bron 1 miliwn o bobl, sy'n treulio, ar gyftaedd, bedair awr yr wythnos yn gwneud hynny. Mae CGGC wedi cefnogi hyn drwy:

- Ariannu 8 swyddfa gwirfoddoli newydd a chefnogi'r rhwydwaith o 30 swyddfa gwirfoddoli;
- cynhyrchu fideo gyda Chyngor Ieuencid Cymru, Dewch o'na - Gnewch Wahaniaeth, i annog pobl ifanc i wyrffodoli;
- cyhoeddi pamffled ar reciwrto gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith a chyfrannu at adroddiadau ar bobl hŷn yn gwirfoddoli a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cynhalwyr;
- darparu rhaglen hyfforddi achredig ar gyfer trefnwy'r gwirfoddolwyr;
- datblygu polisi engrheifftiol ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n gweithio o fewn y GIG;
- gweithio gyda'r WLGA i ddatblygu polisi ar gyfer gwirfoddoli o fewn awdurdodau lleol;
- datblygu strategaeth newydd ar gyfer gwirfoddoli o fewn y Cyfamod rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol;
- cyfrannu at gynllunio rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm;
- gwellâ'r berthynas waith rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus drwy'r Bartneriaeth Wyrffodol.

“pwylgor gwaith
i gefnogi”



AGE CON

Mae gwirfoddolwyr hŷn wrthi hefyd! Nona Pare, treftadaeth gwirfoddolwyr, yn y canol, gyda'r gwirfoddolwyr Nina Hobbs a Betty Wyatt yn y siop iechyd i bobl hŷn, yn y Barri. Dywed adroddiad y Trydydd Oed ar gwirfoddolwyr hŷn bod cynnwys rhagor o bobl hŷn yn y maes gwirfoddoli yn cynnig llawer o botensial, a phan maent yn cyfrannu daw, yn eu sgi, oes o brofiad.

Mae Prosiect Cyfryngau Gwirfoddoli CGGC wedi dal i chwifio'r faner gwirfoddoli mewn arenas lleol a chenedlaethol. Mae'r prosiectau Impact yng Nghaerfyddin a Merthyr Tudful wedi bod yn brysyr gydag amrediad o weithgareddau o ymgrychoedd posteri, datganiadau i'r wasg a dyddiau Cwrrd a'r Cyfryngau, i sesiynau hyfforddi ar sut i gynhyrchu cylchlythron i wifoddolwyr a delio â chyflwelliadau ar y teledu neu'r radio.

Cyswllt Cyfryngau Cymru yw gwedd genedlaethol y prosiect - sef rhwydwaith Cymru-gyfan o swyddogion i'r wasg ar gyfer y sector gwirfoddol sydd wedi ymrwymo i hoelio materion gwirfoddoli at sylw pobl broffesiynol y cyfryngau yn barhaus. Cyswllt y Cyfryngau '97 oedd ei ddigwyddiad cenedlaethol cyntaf, dan ofal y BBC yng Nghaerdydd. Daeth nifer sylwedol o ddarlleddwyr a grwpiau gwirfoddolwyr yno am ddiwrmod o ddadlau a dialog cynhyrchiol.

*Gwelwyd gemic
cyhoeddusrwydd
anghyffredin yn ystod*

Wythnos

*Gwirfoddolwyr:
trefnodd prosiectau*

Impact Caerfyddin a Merthyr i'r papurau lleol dynnu lluniau'r babanod cyntaf a aned yn ystod yr Wythnos wedi eu gwisgo mewn crysau-t a orgraffwyd yn arbennig gyda'r geiriau Born to Volunteer. Cysgodd Aaron Bell, baban o Gefn Coed, yn drwm drwy'r holl tir!



"Roedd Cyswllt y Cyfryngau '97 yn dynodi dechrau perthynas newydd rhwng mudiadau gwirfoddol a llawer o'n cynhyrchwyr rhagleni" - Geraint Talfan Davies, Rheolwr, BBC Cymru

Adeiladau bro - canolbwytio ar weithredu

Mae neuaddau bro yn gaffaeliad lleol hanfodol - fel man cyfarfod a lleoliad ar gyfer grwpiau lleol o glybiau bechgyn, geidiau a grwpiau mam a'i phlentyn i gyfarfod ydd Merched y Wawr, dosbarthiadau arlunio a ioga. Amcangyfrifir bod yna 1,000 o neuaddau bro yng Nghymru, ac mae ar lawer ohonynt angen cymorth - o ddod o hyd i arian i drwsio to sy'n gollwng i ddysgu am ffurdd o sicrhau bod y gymuned gyfan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol.

Estyn

Mae gwasanaeth cyngori newydd CGCC ar adeiladau bro wedi bod yn gweithredu ers blwyddyn ac mae lefel y galw yn cadarnhau bod yna angen am wasanaeth o'r fath. Eleni mae Estyn wedi:

- Ymateb i dros 200 o ymholaiedau;
- cynnal 35 o gyfarfod ydy chyrff lleol, gan gynnwys y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, prosiectau LEADER a sefydladau arbenigol i feithrin dealltwriaeth am y gwasanaeth;
- flurio partneriaethau gweithredol gyda dros 80 y cant o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth yn lleol drwy Estyn;
- cynhyrchu cylchlythyr bob deufis ar gyfer 1,000 a mwy o adeiladau bro ym mhob cwr o Gymru a thafenni gwybodaeth newydd;
- cynnal y fforwm cenedlaethol cyntaf ar adeiladau bro;
- cynrychioli safbwyt adeiladau bro yng Nghymru mewn ymarferion ymgynghori, er enghraift, gyda'r Cymdeithas Hawliau Perfformio.

Cynnal - neuaddau bro i'r Milflwydd yng Nghymru

Dim ond unwaith mewn mil o flynyddoedd y daw cyfle o'r fath. Manteisiodd CGGC yn llwyr ar y cyfle hwn ac, yn ystod haf 1997, agorwyd Cynnal - Neuaddau bro i'r Milflwydd yng Nghymru. Bydd y cyllun uchelgeisiol hwn, dan nawdd Comisiwn y Mileniwm a'r Swyddfa Gymreig, yn buddsoddi £10m i helpu cymunedau i foderneiddio neu adeiladu o leiaf 50 o neuaddau bro ledled Cymru.

Ym mis Mawrth 1998, cyhoeddwyd grantiau cyntaf Cynnal; byddir yn gwario £3 miliwn a mwy ar 13 o neuaddau, y buddsoddiad mwyaf erioed ar gyfer adeiladau bro yng Nghymru. O'r rhain, roedd 6 yn neuaddau cwbl newydd, roedd 5 yn estyniadau a 2 yn waith adnewyddu sylweddol. Roedd yn rhaid i'r holl ymgeiswyr ddangos bod y neuaddau dan reolaeth y gymuned, yn sicrhau mynediad i bawb, ac yn bodloni safonau cynllunio uchel.

Yn ystod y flwyddyn bu cynlluniau Cynnal ac Estyn yn cydweithio ar gyhoeddïad newydd pwysig ar gyfer neuaddau bro, Cynllunio, dylunio ac adeiladu, cyhoeddïad sy'n twys pwyllogorau neuaddau bro drwy'r camau o ddylunio ac adeiladu neuadd newydd. Bydd yr arweiniad 90 tudalen hwn, a gyhoeddwyd gyda chymorth Comisiwn y Mileniwm, yn cael ei lansio yn ddiweddarach ym 1998.

Un o weinidogion y Llywodraeth, Peter

Mandelson, yn bwrw golwg ar gynlluniau ar gyfer neuadd fro newydd ym Mro Clydach yn

Sir Fynwy. Daeth

*cymariaethau rhwng yr
adeilad hwn a Dôm
dadleual y Mileniwm i'r
amlwg wrth archwilio'r
safle a'r model.*

Dywedodd Peter

*Mandelson bod
neuadd Clydach "yn
dangos parch tuag at
y gorffennol a hyder ar
gyfer y dyfodol. Mae
eich cymuned yn llawn
uchelgais ac ysbyrd
cymunedol."*



*Yn wên o glust i
glust! Cynrychiolwyr
neuaddau bro yn
dangos eu bod wrth
eu bodd ar ôl
clywed iddynt
sicrhau grant gan
Cynnal.*



Ymddiriedolaeth Gwarchod Capeli Cymru

Tua diwedd 1997, hysbyswyd CGGC bod Cadw wedi cymeradwyo cynigion i ffurio Ymddiriedolaeth Gwarchod Capeli Cymru. Bydd CGGC yn gweithio dros gyfnod o ddwy flynedd i baratoi seiliau cyfansoddiadol ac ariannol y sefydliad newydd. Awgryma rhagolygon o'r nifer o gapelli sy'n debygol o fod yn segud yn y dyfodol y bydd yr ymddiriedolaeth yn siwr o gyflawni ei ddau nod yn fuan:

- Cynnal capeli pwysig - y rheini sydd o ddiddordeb pensaeriol, sydd â chysylltiadau hanesyddol neu sy'n enghreifftiau arwyddocaol o adeiladau syml y traddodiad anghydffurfio;
- darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch gwarchod adeiladau, cynllunio a materion cysylltiedig.

Gweithio gydag Ewrop

Bu'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn dal i chwarae rhan bwysig mewn rhaglenni adfywio a noddir drwy gronfeydd Ewropeaidd. Cydnabuwyd ei rôl allweddol yn groyw ym mis Gorffennaf 1997 pan gyhoeddodd y Comisiynydd ei adroddiad Hybu rôl sefydladau a mudiadau gwirfoddol yn Ewrop.

Mae CGGC wedi parhau i sicrhau'r cyfraniad mwyaful posib gan y sector drwy:

- Cynrychioli'r sector ar weithgorau a phwyllgorau Ewropeaidd allweddol;
- cyfrannu tuag at y gwaith o gynllunio rhaglenni newydd;
- ymgynchu i liniaru rhwystrau ac arafwch biwrocrataidd;
- cynorthwyo grwpiau gwirfoddol i gyrchu at y rhaglenni drwy ymateb i 820 o ymholaadau, cynnal 140 o gymorthfeydd a 18 o ddigwyddiadau hyfforddi.

O ganlyniad:

- Llywdododd grwpiau gwirfoddol i sicrhau dros £8.5 miliwn o grantiau yn y Gymru wledig a de Cymru ddiwydiannol.
- Sicrhawyd £900,000 i alluogi CGGC i gynnal cynllun grantiau bychain ar gyfer grwpiau gwirfoddol yn ardal de Cymru, ac mi baratowyd cynlluniau tebyg ar gyfer ardaloedd gwledig.
- Yn awr, gellir rhoi gwerth ar amser gwirfoddolwyr a'i ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer grantiau o Ewrop.

Hefyd, cynhaliwyd prosiect ymchwil gan CGGC i ganfod yr angen am ddatblygu potentiau ymhlied grwpiau gwirfoddol yng Nghymru ac i argymhell blaenoriaethau ar gyfer dyranu'r cyllid sydd ar gael dan flaenorlaeth 4 y rhaglen Amcan 3. Hefyd, mae CGGC wedi chwarae rôl weithredol yn cynrychioli safbwytiau'r sector ynghylch newidiadau arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd i'r cronfeydd strwythurol ar ôl y flwyddyn 2000.

Parhau wnaeth ein gwaith o ddatblygu'r sector gwirfoddol yn Belarus ac i sicrhau cyfeleodd fel y gall grwpiau eraill yng Nghymru wneud yr un fath.



Cyhoeddwyd llawlyfr ymarferol newydd, Arfarnu prosiectau cymunedol ar gyfer cyllid Ewropeaidd ac fe'i lansiwyd yn ystod Uwch-gynhadledd Ewrop 98.

*Swyddog Ewropeaidd
Sue Spurrier yn dod i
'nabod yr arian lleol ...*



Teresa Metcalf, Gerry Allin a Joanne McNally y tu allan i Gaer Las yn Abertawe, sef canolfan adnoddau gymunedol newydd a brynydd gyda chymorth grant gan yr Undeb Ewropeaidd. Talodd yr grant o £320,000, gan Gronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop, am brynu ac adnewyddu'r adeilad a bydd yn cynnig gweithgareddau magu hyder, mentrau cymunedol a gweithdai i bobl sy'n agored i niwed.

"Bu cymorthfeydd hyfforddi a chynghori CGGC yn ardderchog gan iddynt osod y sylfeini ar gyfer cais llwyddiannus. Helpodd y tim Ewropeaidd hefyd drwy roi cyngor a gwylbodaeth dros y ffôn tra roedd y cais yn cael ei brosesu - bu hyn yn help mawr," meddai Gerry Allin.



Atgyfnerthu gwasanaethau cefnogi lleol

Un o gryfderau seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru yw'r bartneriaeth strategol rhwng CGGC a'r cynghorau gwirfoddol sirol. Golyga'r berthynas gyflenwol hon y cefnogir y sector gwirfoddol, i bob pwrras, ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf i CGGC fod yn gyfrifol am gynllun y gwasanaethau gwirfoddol lleol (LVS) sy'n cynnig cyllid craidd i'r cynghorau gwirfoddol sirol yng Nghymru. Ymestynnwyd y rhwydwaith o 18 corff lleol eleni pan ddyfarnodd pwylgor yr LVS grant i sefydlu Cyngor Gwirfoddol Sirol newydd yn Nhorfaen, sef Cynghrair Gwirfoddol Torfaen.

Pwysleisiodd safonau sylfaenol y cynllun LVS bod yn rhaid i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ddatblygu aelodaeth eang a'r rheini wedi eu denu o bob agwedd o weithgareddau gwirfoddol, gan gynrychioli a chefnogi yr amrywiaeth mawr o fuddiannau o fewn y sector gwirfoddol lleol. Yn ystod y flwyddyn:

- Cynyddodd aelodaeth gyfun y Cynghorau Gwirfoddol Sirol i bron i 3000 o grwpiau;
 - sefydlwyd trefniadau cydweithio ffurfiol mewn 7 ardal awdurdodol lleol;
 - canlyniad dros 5,000 o sesiynau cymorth ariannol oedd £5.7m o nawdd i grwpiau lleol.
- Parhau y mae'r cydweithrediad ymarferol rhwng CGGC a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac, yn ei sgil, llwyddwyd i:
- ffurfio rhwydweithiau TG, rhannu croneydd data a thaflenni gwybodaeth a oedd yn berthnasol i grwpiau lleol;
 - cyflwyno cyrsiau hyfforddi lleol;
 - cynnal digwyddiadau brifio ar gyfer Cynghorau Gwirfoddol Sirol gyda chyriff dosbarthu bwrdd y loteri ac ynghylch cyllid o Ewrop;
 - cymorthfeydd cyngori ar gyfer Cynghorau Gwirfoddol Sirol gyda'r Comisiwn Elusennau.

Darparu adnoddau

Y Cynllun grantiau bychain

Mae cynllun grantiau bychain CGGC yn dal i ddangos bod ychydig yn gweud gwahaniaeth. Gall cyflwyno grantiau bychain (o dan £500) gyda chyn lleied o flwydian a phosib roi hwb gwirioneddol i hyder a gweithrediau unrhyw grŵp lleol. Eleni, cyflwynwyd dros 50 o grantiau: aeth y lleiaf, £50, i Glynv Pêl-droed Allstars Glyncoed i brynu cyfarpar chwaraeon i blant ifanc, ac aeth y mwyaf, £500, i Gwmni Gwarchod Rheilffordd Bro Morgannwg i gyfrannu tuaig at y gost o addasu car bwriad ar gyfer pobl anabl.

Mae Allstars
Glyncoed ar
flaenau'u traed!



Y Cynllun Gwirfoddoli yng Nghymru

Mae tros 3,500 o gwirfoddolwyr wedi elwa yn sgil dyfamu 67 o grantiau ar gyfer menterau gwirfoddoli lleol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, grant o £21,500 i Flerm Dinas Caerdydd i dalu cyflog i gydlynnyd gwirfoddolwyr. Dyfarmwyd dros £600,000 eleni.



Un prosiect o blith rhai o'r fath yw'r cynllun

Dyfodol Disglair, a leolir yn Wrecsam. Cynigia gyfleoedd a chefnogaeth i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys canolfannau galw-draw, gwybodaeth a hyfforddiant. Gyda'r grant gall Dyfodol Disglair ymestyn ei weithgareddau i ardaloedd gwledig y sir. Meddai Maureen Langford, cydlynnyd y prosiect: "Rydym ni hefyd wedi llwyddo i godi rhagor o arian drwy adeiladu ar gryfder grant CGGC."

Y Cynllun grantiau iechyd meddwl lleol

Mae CGGC wedi ymgynghori'n helaeth yngylch y cynllun newydd hwn ac wedi gwahodd ceisiadau yn ystod ei llwyddyn gyntal a walith. Cymaint yw'r galw am grantiau fel bod CGGC wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r Swyddfa Gymreig i gynyddu'r cyllid sydd ar gael - cynydd o bron 10 y cant o £1.42m i £1.55m.


Golyga hyn fod CGGC, yn ei rawnwgyntol o geisiadau, wedi gallu anarannu'r cyfan o'r 32 mudiadau a ddiberbyniodd grant dan cynllun y Swyddfa Gymreig gynt, yn ogystal â'r Gwasanaeth Datblygu Iechyd Meddwl Cymru. Yn anwyddocaol, llwyddodd y cynllun newydd, hefyd, i gyllido saith cynllun newydd ledled Cymru, yng Nghaerffili, Wrecsam, Sir y Flint, Sir Ddinbych, Sir Benfro a Cheredigion.

Cynllun grantiau datblygu potensial cymunedau de Cymru

Mae'r cynllun hwn, a sefydlwyd gydag arian gan Gronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop, yn cefnogi gweithgareddau sydd dan arweiniad y gymuned yn ne Cymru ddiwydiannol. Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael, ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys costau sefydlu mudiadau newydd, arolygon cymunedol, darparu neu adnewyddu adeiladau neu gyfleusterau cymunedol bychain, neu gostau cyflogi gweithwyr.



Ar y buarth ... Ers sawl
bwwyddyn, mae Fferm
Dinas Caerdydd wedi
brwydro yn erbyn
fandaliaeth, lladrata
anifeiliaid ac, yn olaf,
achos o losgi bwriadol a orfododd y fferm i gau
am rai misoedd, i bob pwrrpas. Yn awr, mae'r
cydlynnydd gwirfoddolwyr, Callum Mackintosh
(y llun ar y chwith) y cyllidir ei gyflog gan
Gwirfoddoli yng Nghymru, a gwirfoddolwyr lleol
wedi helpu i roi'r fferm ar ben y ffordd drachefn.



Mynd i'r afael â thlodi

Sefydlydwyd prosiect gwirth-dlodi CGGC i gefnogi cyfraniad grwpiau gwirfoddol a chymunedol mewn strategaethau gwirth-dlodi.

Gwnaed hyn drwy roi hyfforddiant mewn sgiliau gwaith cymunedol i arweinyddion a phobl weithgar leol a thrwy hyrwyddo cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a mudiadau cymunedol.

Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'r prosiect wedi llwyddo i gynyddu profil cynlluniau cymunedol ym maes gwaith altudiaeth gymdeithasol a gwirth-dlodi ym mhobliau'r llywodraeth ar bob lefel. Mae wedi creu fframwaith o gefnogaeth i helpu cynlluniau cymunedol i gael y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen amnyt; ac mae hefyd wedi sicrhau adnoddau annibynnol i helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu eu potensial i weithio gyda chyrrif statudol.

"annog cydweithrediad"

"campau allweddol"

Dyma rai o gyflawniadau allweddol y prosiect:

- Helpu i sicrhau dros £4.7 miliwn o Ewrop fel cyllid datblygu potensial i grwpiau cymunedol sy'n gweithio gyda phobl o sectorau o'r gymdeithasol sy'n wynebu altudiaeth gymdeithasol neu economaidd;
- sefydlu'r Grŵp Economi Gymdeithasol, grŵp a ddylanwadodd ar bolisi economaidd y Swyddfa Gymreig i gynnwys gweithgareddau adfywiw dan arweiniad y gymuned;
- sefydlu partneriaethau lleol i gynnal hyfforddiant gwaith cymunedol mewn gwahanol ranau o Gymru;
- dosbarthu pecynnau brifio gwirth-dlodi chwarterol i dros 300 o gysylltiadau lleol;
- cyhoeddi nifer o arweiniadau a llawlyfrau ymarferol -
 - Adelodu cymunedau - datblygiadau dan arweiniad y gymuned
 - Adelodu cymunedau - llawlyr i grwpiau cymunedol
 - Adelodu cymunedau - arweiniad i llywodraeth leol ar weithio gyda chynlluniau dan arweiniad y gymuned
 - Arweiniad bras i safonau gwaith cymunedol (mewn cydweithrediad â Chyngor Gwirfoddol Sirol Abertawe)
 - Arfamu prosiectau cymunedol ar gyfer cyllid Ewropeaidd
- cymhgori'r Swyddfa Gymreig yngylch datblygu a gweithredu ei Rhaglen Altudiaeth Gymdeithasol.



Cefnogi cymunedau gwledig

Fel y mae'r argyfwng yng nghefn gwlad wedi saethu i fyny'r agenda wleidyddol, bu CCGC yn gweithio i sicrhau bod grwpiau gwirfoddol mewn ardal oedd gwledig yn cael y gefnogaeth a'r gynchiolaeth briodol drwy:

- Gynchiola'i'r sector ar lefel strategol, gan gynnwys Partneriaeth Canolbarth Cymru a rhwydwaith LEADER Cymru;
- dwyn gwahanol rwydweithiau ynghyd er mwyn hyrwyddo dull integredig o weithredu;
- sicrhau cyllid ar gyfer swydd ymgymghorydd cyllid ar gyfer ardal Amcan 5b y Gymru gwledig, i helpu grwpiau gwledig i gael gafael ar gymorth grant o Ewrop.

Jigso

Mae Jigso yn hybu'r gymuned i gyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau'n lleol yn y Gymru gwledig (5b). Yn ystod y llwyddyn trosglwyddwyd yr awenau dros reoli Jigso i CCGC ac agorwyd swyddfa yn Aberystwyth. Ymhilith y cyflawniadau allweddol yn ystod y llwyddyn gyntaf y mae:

- Paratoi llawlyfr ynghylch dulliau cyfranogi ymhilith cymunedau, Where do we go from here?

Dechrau'n ifanc!

- cyflwyno 10 sesiwn hyfforddi;
- rhoi cymorth i 30 cymuned drwy gymorth grant, cyngor neu hyfforddiant;
- cynhyrchu fersiwn newydd o feddalwedd arolygon cymunedol Jigso.

Cynllunio ar gyfer pobl,

gweithgaredd Jigso



Gwelodd Jigso lif o gymunedau â diddordeb yn dymuno dathlu'r Mileniwm mewn stell ac am wybod sut i sicrhau cyfraniad pobl leol yn y broses honno. Gydag ymhwymiad a chefnogaeth, bydd cymunedau gwledig nid yn unig yn tanio tân gwylt ar Ragfyr 31 1999, byddant hefyd yn tanio ymdeimlad iach a chryf o berthyn ar gyfer y mil o flynyddoedd nesaf.



*Gwennan Davies,
WCVA's Rural Officer*



*Arglywyd Ellis Thomas,
Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
a Marc Phillips,
ymddiredolawr CGGC, yn
dal dystysgrif cymruadwyo
CGGC*

20



*Drew Reith (ar y dde), cadeirydd pwylgor Corff Hyfforddi
Cenedlaethol y Sector Gwirfoddol yng Nghymru, yn derbyn
dystysgrif gan Kim Howells, y gweinidog yn yr Adran Addysg
a Chyflogaeth, bryd hynny, ynghyd â chynrychiolwyr o Loegr
a'r Alban.*

Un genedl, dwy iaith

Eleni mae'r prosiect iaith Gymraeg wedi:

- Cyhoeddi dogfen ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Gwirfoddoli dros yr iaith, a lansiwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol;
- cynnal nifer o seminarau ymarferol ar baratoi cynlluniau iaith Gymraeg;
- cynhyrchu arweiniad i reciwtio gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith;
- cynnal seminar yn Nhifl'r Arglwyddi i gynyddu ymwybyddiaeth ymhilith mudiadau gwirfoddol y DG sy'n gweithredu yng Nghymru, ynghyrch gofynion a manteision polisiau dwyieithog;
- cydweithredu gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynhyrchu pecyn hyfforddi ar reolaeth mewn amgylchedd dwyieithog, Dwy iaith ar waith.

Hyfforddi a datblygu

Roedd clywed bod CGGC, ynghyd â'n chwaer sefydliadau yn yr Alban a Lloegr, wedi ei gydnabod yn gorff hyfforddi cenedlaethol yn newyddion da i'r sector. Mae Corff Hyfforddi Cenedlaethol yn galluogi cyflogwyr sydd â diddordebau cyffredin i arwain y broses o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu - gan gynnwys cyflogwyr, staff a gwirfoddolwyr. Dyma'r tro cyntaf i'r sector gwirfoddol gael ei gorff ei hun i fod yn gyfrifol

am hyfforddi a datblygu. Un o'r darnau cyntaf o waith a wnaeth Corff Hyfforddi Cenedlaethol y sector gwirfoddol yng Nghymru oedd creu cronfa ddata o hyfforddwyr ac ymgynghorwyr sy'n gweithio o fewn y sector, cronfa y gall grwpiau gwirfoddol gael gafael arni yn rhad ac am ddim.

Mae CGGC hefyd wedi cyflwyno:

- Rhaglen gyhoedddegig o 15 cws, gyda thros 90 y cant ohonynt wedi eu barnu yn dda iawn neu'n ardderchog;
- cyrsiau newydd ynghylch ymgeisio i ymddiriedolaethau elusennol, cymnroddion a'r Rhyngrywyd - roedd y galw am y rhain yn llawer mwya nag a oedd ar gael a chânt eu cynnig am yr eildor y flwyddyn nesaf;
- 40 diwrnod o hyfforddiant i'r staff;
- rhaglen hyfforddi achredig i drefnwy'r gwirfoddolwyr;
- cynadleddau ar gydnabod gwirfoddolwyr, materion ansawdd ac addysg am oes.

Rhoi cyngor a gwybodaeth

Yn ystod 1997 - 98 ymatebodd CGGC i dros 7,000 o ymholiadau am amrediad eang iawn o bynciau. Mae'r rhain yn cymwys cyllid cyfredinol (28 y cant), gwirfoddoli (15 y cant) a materion cyfansoddiadol (2.5 y cant).

Mae llawer o'r ymholiadau yn ymwned ag enwau a chyfeiriadau. Eleni, CGGC wedi sefydlu cronfa ddata

"cysylltiadau"

Cymru-gyfan o fudiadau gwirfoddol, i helpu i ymateb yn gyffym ac yn gywir i'r ymholiadau hyn.

Gellir darpanu allbrintiau o restrau o grwpiau, yn ol ardal neu bwnc.

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 14,000 o gofnodion wedi eu cynnwys, ac roedd 4 y cant o'r rhain yn rhoi Cymru-gyfan, 6 y cant yn rhoi rhanbarthol a 90 y cant yn rhoi lleol.

Roedd y cwestiynau a'r ymholiadau eraill am gymorth yn fwy cymhleth, ac yn gofyn am gefnogaeth tymor hir, ymchwilio neu archwilio. Ceir rhoi engrheifftiau o'r sefydliadau a gynorthwywyd, a'r amrediad o gymorth a rodwyd isod:


- Mae llunio cyfansoddiad ac ymgreisio am statws elusennol yn dasgau anodd lawn. Eleni, rhoddodd CGGC gymorth gyda chytansoddiadau i'r Sefydliad WAY, ymhlieth eraill, sy'n fudiad gwirfoddol newydd sy'n cefnogi gweddwon dan 50 oed a'u plant.

"cyngor cyfreithiol"

• Cyuniödd CGGC i fod yn ganolwr mewn dadl ynglychyl dyfodol Nant Gwrtbeym y Ganolfan Iaith. Sicrhawyd consensws ar gyfer ail-strwythuro ac ailffurflcio'r sefydliad.


• Gofynnodd yr RSPB i CGGC eu helpu i gyflwyno'u hachos yn Ny'r Argwyddi ynglychyl gwella'r cynllun datblygu cynaliadwy yn Neddf Uywodraeth Cymru.

• Gofynnodd Radio Red Dragon sy'n darledu o Gaerdydd i CGGC ei helpu i sefydlu ei ymddiriedolaeth elusennol ei hun i godi arian i blant yn yr ardal y mae'n darledu yn ynddi. Ers ei lansiö ym mis Mai 1997 mae'r ymddiriedolaeth wedi codi dros £75,000.



"ymddiriedolaethau elusennol"

Aelodau o Sefydliad WAY - 'yn sicrhau dyfodol i weddwon a'u plant' - yn mwynhau achlysur cymdeithasol. Gwnaeth CGGC rhoi cyngor cyfansoddiadol i Sefydliad WAY.




Aelodau y pwylgor gwaith

Llywydd	larl of Lisburne (tan Tachwedd 1998)	Cefnogir y pwylgor gwaith gan dim rheoli a 50 o staff yn gweithio o 4 swyddfa yng Nghymru
Trysorydd anrhydeddus	Mr. W. P. Kitson	
Cadeirydd	Mrs. Marjorie Dykins, OBE	
Dirprwy gadeirydd	Ms Jane Hutt	
Mr. Mohammed	Ms S. Meryl Evans	Mr John Puzeys
Akteruzzaman	Mr Jazz Iheanacho	Mr Drew Reith
Mr. Phil Barratt	Ms Margaret Jervis MBE	Ms Jenny Render
Mr. Hanif Bhamjee	Ms Margaret Knight	Mr Ken Savage
Ms Sue Barlow	Ms Jenny Lewis	Mr Aziz Tharani
Mrs.Ceinwyn Davies	Ms Ruth Marks	Ms Manon Ellis-Williams
Mr John Ashton Edwards OBE	Mr Roy A. Norris	Mr Merfyn Williams
Mr Stuart Etherington	Mr D. Marc Phillips	Mr Alistair Wood MBE

Aseswyr y pwylgor gwaith
Mr David G. Evans, Welsh Office
Ms Helen Thomas, Welsh Office

Ymgynghorydd y
pwylgor gwaith
Archwiliwyr
Banciau
Ms Aileen Haskell, Commission for Racial Equality
Messrs. Zeidman & Davies
Barclays Bank plc
Co-op Bank plc
National Westminister Bank plc

23



Datganiad i ddangos gweithgaredd

Ail-ddatganiad

Mae CGGC yn diolch i'r mudiadau canlynol am eu cymorth:

Y Swyddfa Gymreig

Cyngor Sir Caerdydd

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Bwrdd Elusennau'r Loteri

Genedlaethol

Comisiwn y Milflwydd

AACh

Sefydliad Lloyds TSB ar gyfer Lloegr a Chymru

The Baring Foundation

Manweb

Camelot

Undeb Ewropeaidd

INCWM A GWARANT


Adnoddau a dderbyniwyd:

	Cronfeydd heb gyfyngiad £	Cronfeydd cyfyngiad £	Cyfanswm 1998 £	Cyfanswm 1997 £
Grantiau	540,229	2,374,526	2,914,755	873,714
Incwm gohiriedig	-	-	-	-
Incwm arall	273,788	3,000	276,788	191,452
Llog a enillwyd ac incwm arall o fuddsoddi	29,233	9,923	39,156	30,012
Gwirfoddoli yng Nghymru	-	530,000	530,000	500,000
Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd	843,250	2,917,449	3,760,699	1,595,178
Adnoddau a ddefnyddiwyd:				
Elusennol uniongyrchol	726,867	2,860,273	3,587,140	1,387,997
Rheoli a gweinyddu'r elusen	106,975	684	107,659	104,179
Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd	833,842	2,860,957	3,694,799	1,492,176
Adnoddau net a dderbyniwyd/ (ddefnyddiwyd) yn y flwyddyn	9,408	56,492	65,900	103,002
Colled ar Werthiant				
Buddsodiadau	(976)		(976)	
Elw/(colled) heb ei wireddu ar fuddsodiadau	25,044	-	25,044	803
Darpariaethau nad oes eu hangen mwyach	-	-	-	-
Newlid yn y cronfeydd	33,476	56,492	89,968	103,805
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 1997	239,581	95,283	334,864	231,059
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 1998	273,057	151,775	424,832	334,684


Adnoddau a dderbyniwyd (Cronfeydd cyfyngedig)




Adnoddau a dderbyniwyd (Cronfeydd heb gyfyngedig)



Adnoddau a ddefnyddiwyd (Cronfeydd cyfyngedig)



Adnoddau a ddefnyddiwyd (Cronfeydd heb gyfyngedig)



Mantolen

26

Gellir cael set lawn o'r
adroddiadau a'r
cyfrifon gan:

Mr D Morris
Ysgifennydd y Cwmni
CGGC
Llys Ifor
Heol Crescent
Caerffili CF83 1XL
ffon 01222 855100

	1998	1997
	£	£
ASEDAU SEFYDLOG	544,983	578,646
ASEDAU CYFREDOL		
Buddsoddiadau	94,223	222,101
Dyledwyr a chyndaliadau	190,526	22,661
Arian yn y banc	295,732	177,549
Arian mewn llaw	34	134
	580,515	422,445
CREDYDWYR: Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn	270,682	236,243
	309,833	186,202
	854,816	764,848
ASEDAU CYFREDOL NET		
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau ac arwystion	75,000	75,000
	779,816	689,848
CRONFEYDD		
Cronfeydd cyfyngedig	183,133	101,586
Cronfeydd cyfyngedig -		
Balansau Diffyg	(31,358)	(6,303)
Cronfeydd heb gyfyngiad	273,057	239,581
Arian adbrisio wrth gefn	354,984	354,984
	779,816	689,848

Iaelodau o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ym marn yr archwiliwr, Messers Zeidman & Davis, mae'r cynnobebl o'r cyfrifon a roddir yn y ddogfen hon yn gyson a'r cyfrifon blynyddol llawn. Roedd adroddiad y dadansoddwyr ar y cyfrifon llawn heb ei cymhwysyo.

Zeidman a Davis, Cyfrifwyr Ardystiedig, Archwiliwr Cofrestredig, Tŷ Lawrence, Caerffili.